

Addasrwydd i Ymarfer

Os ydych chi'n astudio cwrs proffesiynol sy'n cynnwys amser ar leoliad, fel Nyrsio, Bydwreigiaeth, Ffisiotherapi, Addysgu, Cwnsela neu Gwaith Cymdeithasol, mae disgwyl i chi gydymffurfio â safonau proffesiynol eich cwrs a'ch proffesiwn. Os caiff pryderon eu codi am eich ymddygiad neu eich proffesiynoldeb tra ar leoliad (neu mewn rhai achosion, yn ystod eich astudiaethau), falle y cewch chi eich cyfeirio at Weithdrefn Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer y Brifysgol.

Mae cael eich cyfeirio at Addasrwydd i Ymarfer yn gallu achosi poen meddwl, ond does dim rhad i chi fynd trwy'r broses ar eich pen eich hun. Mae ein Gwasanaeth Cynghori yma i'ch cefnogi a'ch tywys chi bob cam o'r ffordd.

Dechreuwn ni trwy gyfarfod efo chi i drafod y pryderon neu'r honiadau sydd wedi cael eu codi a rhoi'r cyfle i chi esbonio'ch safbwynt chi. Fe wnawn ni eich helpu chi i ddeall y broses, trafod sut gallwch chi ymateb i'r prydero, a'ch paratoi chi at unrhyw gyfarfodydd neu wrandawiadau panel.

Mae gan y broses Addasrwydd i Ymarfer sawl cam, a all gynnwys datrysiad cynnar neu anffurfiol, ymchwiliad ar lefel Ysgol neu Raglen, Panel Cam 1, a, phan mae angen, Panel Cam 2. Ni fydd pob achos yn mynd trwy nob cam, gan ei fod yn dibynnu ar natur y pryderon a godwyd, a'ch ymateb chi.

Rydyn ni'n eich annog chi i gysylltu â ni cyn gynted â'ch bod chi'n ymwybodol o unrhyw bryderon Addasrwydd i Ymarfer. Mae cael eich cynghori yn gynnar yn meddwl y gallwn ni esbonio'r broses, ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi, a'ch cefnogi chi trwy bob cam yn y broses.

Ymchwiliad ar Lefel Rhaglen / Ysgol

Os mae pryderon wedi cael eu codi am eich addasrwydd ar gyfer rhaglen, amser ar leoliad, neu ofynion proffesiynol, y cam gyntaf fel arfer ydi ymchwiliad ar lefel Rhaglen / Ysgol.

Beth sy'n digwydd yn y cam hwn?

Mi fydd eich Ysgol yn trefnu cyfarfod gyda chi i drafod y pryderon a godwyd. Falle y bydd hwn yn cael ei alw'n gyfarfod ffeindio'r ffeithiau.

Cyn y cyfarfod, dylech chi dderbyn gwybodaeth am y pryderon neu'r atgyfeiriad fel bod gennych chi ddealltwriaeth resymol o beth sydd wedi cael ei godi ac i chi gael paratoi'ch ymateb.

Yn ystod y cyfarfod:

- Mi fydd yr ysgol yn esbonio'r pryderon neu'r honiadau sydd wedi cael eu codi.
- Mi fyddwch yn cael cyfle i ymateb i'r pryderon hyn.
- Gallwch esbonio beth ddigwyddodd o'ch safbwynt chi.
- Gallwch gyfleu unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth berthnasol.
- Falle byddent yn gofyn cwestiynau i chi i helpu'r ysgol ddeall y sefyllfa.

Canlyniadau Posib

Ar ôl y cyfarfod, gall y bydd yr ysgol yn penderfynu:

- Nad oes angen gweithredu'n bellach- mae'r ysgol yn penderfynu nad oes angen mynd a'r pryderon yn bellach.
- Cytuno ar gynllun gweithredu- rydych chi a'r ysgol yn cytuno ar ffordd o fynd i afael â'r pryderon. Gall hyn gynnwys cefnogaeth, monitro, neu camau eraill i helpu i ddatrys y sefyllfa.
- Cyfeirio'r mater at Panel Cam 1- os na ellir datrys y pryderon yn y cam yma, neu os ydyn nhw'n cael eu hystyried yn ddigon difrifol, gall y mater gael ei gyfeirio at Banel Cam 1.

Os caiff eich achos ei gyfeirio at Banel Cam 1, dylech chi gael eich hysbysu am hyn a derbyn gwybodaeth am gam nesaf y broses.

Panel Cam 1

Os na all eich pryderon gael eu datrys ar lefel Ymchwiliad Rhaglen / Ysgol, falle caiff eich achos ei gyfeirio at Banel Cam 1.

Fel arfer bydd y panel yn cynnwys Arweinydd y Rhaglen, Arweinydd Proffesiynol, neu Arweinydd Statudol, a chynrychiolydd o'r bartneriaeth berthnasol. Falle caiff Pennaeth Ysgol neu enwebai eu cynnwys hefyd.

Caiff Cadeirydd ei benodi o'r staff academaidd i arwain y cyfarfod, a bydd ysgrifennydd yn bresennol er mwyn cadw cofnod o'r cyfarfod.

Cyn y cyfarfod, dylid rhannu unrhyw ddogfennau a fydd yn cael eu hystyried gan y panel efo chi, fel bod gennych chi gyfle i edrych drostynt a pharatoi eich ymateb.

Beth sy'n digwydd mewn Panel Cam 1?

Mi fydd y cyfarfod yn dechrau trwy gyflwyno pawb, fel bod pawb yn glir am bwy sy'n mynychu'r cyfarfod a'u rôl ar y panel.

Mi fydd y Cadeirydd yn esbonio sut bydd y cyfarfod yn rhedeg ac yn amlinellu camau'r cyfarfod. Mi fydd y Cadeirydd hefyd yn gwirio fod pawb wedi derbyn, darllen a deall y ddogfennaeth berthnasol a'r broses cyn i'r panel ddechrau.

Yna, mi fydd y cyfarfod fel yn arfer yn dilyn y strwythur hwn:

1. Caiff yr achos ei gyflwyno

Mi fydd y person sy'n cyflwyno'r achos yn esbonio'r pryderon a'r wybodaeth neu'r dystiolaeth sydd wedi cael ei ystyried. Fel arfer dyma'r un aelod o staff a wnaeth gynnal yr ymchwiliad yn ystod y cam diwethaf.

Falle bydd aelodau'r panel yn gofyn cwestiynau i gyflwynydd yr achos i egluro'r wybodaeth a ddarparwyd.

2. Rydych chi'n ymateb i'r pryderon

Yna bydd gennych chi'r cyfle i ymateb i'r honiadau ac esbonio eich safbwynt.

Fel arfer byddwn yn argymell i chi ddefnyddio'r cyfle hwn i grynhoi pwyntiau allweddol eich datganiad ysgrifenedig, yn lle ei ddarllen gair-am-air.

Yna bydd aelodau o'r panel yn gofyn cwestiynau i chi. Bwriad y cwestiynau hyn ydi i helpu'r panel i ddeall eich amgylchiadau, eich ymateb i'r pryderon, ac unrhyw wybodaeth berthnasol rydych chi wedi ei ddarparu.

3. Cwestiynau rhyngoch chi a chyflwynydd yr achos

Falle bydd yna hefyd gyfle i chi a chyflwynydd yr achos ofyn cwestiynau i'ch gilydd.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwestiynau?

Unwaith mae'r panel wedi gorffen gofyn cwestiynau, fel arfer bydd gofyn i chi a'ch cynrychiolydd adael y cyfarfod tra bod y panel yn ystyried y wybodaeth ac yn dod i'w penderfyniad.

Yna fe fyddwch yn cael eich gwahodd yn ôl i mewn i'r cyfarfod ac yn cael gwybod y canlyniad. Os na allant roi'r canlyniad i chi ar ddiwrnod y cyfarfod, fe wnawn nhw hyn cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib.

Canlyniadau Posibl

Gall y Panel Cam 1 yn penderfynu:

- **Nad oes angen cymryd camau pellach-** does dim angen cymryd unrhyw gamau pellach yn ymwneud â'r sefyllfa ar y pwynt hwn.
- **Rhoi camau yn eu lle-** mae'r panel yn cyflwyno camau i fynd i'r afael â'r pryderon ac i ddatrys y sefyllfa. Gall hyn yn cynnwys:
    - parhau â'ch lleoliad presennol;
    - trefnu lleoliad arall, pan mae angen; neu
    - rhoi trefniadau monitro ffurfiol yn eu lle.
- **Cynnig y cyfle i chi newid rhaglen-** falle cewch chi gynnig y cyfle i newid i raglen sydd ddim yn cynnwys amser ar leoliad, os mae rhaglen addas ar gael.
- **Cyfeirio'r achos at Cam 2-** os na ellir datrys y sefyllfa, neu os mae'r panel yn credu fod yna ddigon o bryderon am eich addasrwydd i barhau, gall y mater gael ei gyfeirio at **Lefel 2**. Mi fydd hyn yn arwain at ystyriaeth gan **Banel Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer.**

- **Gohirio’r achos-** gall y panel benderfynu fod angen ymchwilio’n bellach cyn dod at benderfyniad. Falle bydd y cyfarfod wedyn yn cael ei ohirio i ganiatáu gwybodaeth bellach i gael ei gasglu neu ei ymchwilio. Pan yn bosib, ni ddylai’r gohiriad bara **dim mwy na 10 diwrnod gwaith.**

Panel Cam 2

Os caiff eich achos ei gyfeirio at Banel Cam 2, bydd y cyfarfod fel arfer yn dilyn trefn debyg i Banel Cam 1. Mi fydd gennych chi’r cyfle i ymateb i’r pryderon a godwyd ac ateb unrhyw gwestiynau gan y panel cyn iddynt wneud eu penderfyniad.

Y prif wahaniaeth ydi fod Panel Cam 2 yn cynnwys ystod fwy eang o bobl, yn cynnwys aelodau annibynnol ac allanol sydd gydag arbenigedd proffesiynol perthnasol.

Pwy fydd ar y panel?

Mi fydd y panel fel arfer yn cynnwys:

- Cadeirydd, a fydd unai yn Dirprwy Is-Ganghellor neu yn Bennaeth Ysgol o Goleg arall sy’n aelod o’r Senedd.
- Aelod academaidd o staff o’r Ysgol berthnasol sydd yn deall y safonau proffesiynol neu’r cod ymarfer proffesiynol perthnasol. Ni fydd y person hwn wedi bod yn rhan o’ch achos chi’n flaenorol.
- Un neu ddau aelod allanol efo arbenigedd yn y safonau proffesiynol perthnasol. Ni fydd yr aelodau hyn wedi cael unrhyw beth i’w wneud efo chi yn flaenorol ac fel arfer maent yn dod o sefydliad partner allanol. Mewn amgylchiadau eithriadol, falle y byddent o brifysgol arall.
- Llywydd Undeb y Myfyrwyr, Swyddog Sabothol, neu aelod o staff Undeb y Myfyrwyr a enwebwyd gan y Llywydd.
- Ysgrifennydd, a fydd yn cadw cofnod o’r cyfarfod.

Fel efo Cam 1, cyn y cyfarfod, dylid rhannu efo chi unrhyw ddogfennau a fydd yn cael eu hystyried fel bod gennych chi gyfle i edrych drostynt a pharatoi eich ymateb.

Canlyniadau Posibl

Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, gall y panel benderfynu:

- Parhad di-amod eich astudiaethau ac/neu eich lleoliad- gallwch chi barhau ar eich rhaglen a’ch lleoliad heb unrhyw ofynion ychwanegol.
- Parhad amodol eich astudiaethau ac/neu eich lleoliad- gallwch chi barhau, ond bydd rhaid cydymffurfio â rhai amodau. Gall rhain gynnwys:
    - gofynion academaidd neu broffesiynol ychwanegol;
    - lleoliad arall;
    - goruchwyliaeth ychwanegol neu fonitro;
    - argymell cynllun gweithredu;
    - hyfforddiant ychwanegol; neu
    - cefnogaeth fugeiliol, llesiant neu lles.

- Eich gwahardd chi dros dro o'ch rhaglen ac/neu eich lleoliad- falle bydd eich astudiaethau neu eich lleoliad yn cael eu stopio dros dro tan nad oes pryderon dim mwy am eich Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer. Gall y panel enwi pa dystiolaeth sydd ei angen cyn i chi gael dychwelyd.
- Terfynu eich rhaglen a'ch lleoliad presennol- ni fyddwch yn cael parhau ar y rhaglen rydych wedi cofrestru arni. Pan ar gael, gallwch chi gael cynnig o:
    - gymhwyster ymadael di-broffesiynol; neu
    - rhaglen arall sydd ddim yn cynnwys profiad proffesiynol neu gyfnod ar leoliad.
- Terfynu eich rhaglen bresennol a chyfyngu ar gofrestriad yn y dyfodol- ni fyddwch yn gallu parhau ar y rhaglen rydych wedi cofrestru arni fwyach, a gall y panel argymell na chewch chi gofrestru ar raglen arall yn y Brifysgol am gyfnod penodol neu amhenodol o amser. Os caiff yr argymhelliad hwn ei gymeradwyo, fe gaiff ei gofnodi ar eich cofnod myfyriwr a falle y caiff ei gynnwys mewn geirda neu drawsgrifiadau sy'n cael eu darparu gan y Brifysgol.

Yn wahanol i Gam 1, fel arfer ni fyddwch yn derbyn y canlyniad ar ddiwrnod Panel Cam 2.

Mi fydd penderfyniad y Panel, yn cynnwys unrhyw amodau cysylltiedig, yn cael ei gadarnhau i chi yn ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Panel.

Mi fydd y penderfyniad hefyd yn cael ei rannu gyda Chyflwynydd yr Achos a Phennaeth yr Ysgol, fel arfer o fewn 10 diwrnod gwaith i gyfarfod y Panel, pan yn bosib.

Apeliadau

Mae gennych chi'r hawl i apelio penderfyniad y Panel. Rhaid i'ch apêl gael ei gyflwyno i apeliadau@bangor.ac.uk o fewn 10 diwrnod gwaith o'r dyddiad rydych chi'n derbyn hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad y Panel.

Dim ond ar amodau penodol y gall apeliadau gael eu gwneud. Os gwelwch yn dda, cyfeiriwch at y broses berthnasol ar gyfer gwybodaeth am yr amodau sydd eu hangen cyn i chi allu apelio.

Paratoi datganiad

Os cewch chi eich gwahodd i banel Cam 1 neu Cam 2, rydyn ni'n argymell yn gryf eich bod chi'n paratoi datganiad ysgrifenedig. Fe wnawn ni edrych dros ddrafftiau, rhoi adborth, a'ch helpu chi i sicrhau fod eich datganiad yn delio â'r pryderon a godwyd.

Dylid datganiad cryf gynnwys:

- Esboniad clir o'r pryderon neu'r honiadau o'ch safbwynt chi, gan amlinellu beth ddigwyddodd yn eich geiriau eich hun.

- Cydnabyddiaeth o'ch rhan chi yn y sefyllfa lle'n briodol, gan ddangos cyfrifoldeb, mewnwelediad a dealltwriaeth o ddifrifoldeb y pryderon a'u heffeithiau posib.
- Adlewyrchiad o beth rydych wedi dysgu o'r profiad. Os mae amgylchiadau personol wedi cyfrannu at y sefyllfa, esboniwch rhain tra'n dal i ddangos atebolrwydd pan yn briodol.
- Manylion o unrhyw gamau rydych chi wedi eu cymryd i ddelio â'r pryderon, fel cwblhau hyfforddiant ychwanegol, ymwneud â gwasanaethau llesiant y Brifysgol, edrych am gefnogaeth allanol, neu gymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol pellach.
- Cyfeirio at y cod proffesiynol sy'n berthnasol i'ch cwrs, gan esbonio pa safonau a effeithiwyd a dangos eich dealltwriaeth o sut byddwch chi'n cyd-fynd â'r safonau hyn yn y dyfodol. Er enghraifft, gall hyn gynnwys y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), Safonau Ymddygiad Perfformio a Moeseg Rheoleiddio Gweithwyr Proffesiynol ym maes Iechyd a Gofal (HCPC), Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol, neu arweiniad proffesiynol perthnasol arall.
- Canlyniad cadarnhaol sy'n dangos i'r panel eich bod chi wedi adlewyrchu ar y sefyllfa, wedi dysgu o'r profiad, ac yn deall sut i osgoi problemau tebyg wrth ymarfer yn broffesiynol yn y dyfodol.

Dylai fod eich datganiad terfynol yn cael ei anfon at professionalissues@bangor.ac.uk (Cam 1) o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad y panel.

Os ydych chi'n paratoi datganiad at Cam 2, rhaid i chi yrru hwn at regulations@bangor.ac.uk o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad y panel.

I sicrhau eich bod chi'n cael y gorau o'r gwasanaeth, os gwelwch yn dda sicrhewch eich bod chi'n gyrru eich datganiadau at academicadvice@undebbangor.com ac yn rhoi digon o amser i ni edrych drostynt a rhoi adborth.

I helpu chi ddechrau, rydyn ni wedi creu enghraifft o ddatganiad sy'n dangos y lefel o fanyldeb ac adlewyrchiad mae'r panel yn edrych amdano.

Angen help yn ysgrifennu eich datganiad? Edrychwch ar enghraifft o ddatganiad YMA.